CYLCHLYTHYR FFÊS 2

YSGOL BRO IDRIS

Anthem Ysgol Bro Idris

#unohonani

Heb weld fideo anthem ysgol Bro Idris?

1. Lle ydych chi wedi bod?
2. Sganiwch y côd QR uchod i wylio:

Clybiau Prif Safle	Amser Cinio	Ar ôl Ysgol
Dydd Llun	Just Dance a Table Tennis	Rygbi Merched Bl 7-11
Dydd Mawrth	Pel Fasged	Badminton i bawb Pel droed Merched Bl 7-11 Rygbi Bechgyn Bl 7-9
Dydd Mercher	Gymnasteg	Pel rwyd Merched Bl 9-11 Rygbi Bechgyn Bl 9-11
Dydd Iau	Dodgeball	Pel rwyd Merched Bl 6-8 Pel dreod Bechgyn Bl 6-11
Dydd Gwener	Death Cricket	Pel droed pawb Bl 9-11

Gweithdy Rondo

Cafodd flwyddyn 8 weithdy gan gwmni teledu Rondo ar eu gwaith o sgriptio a ffilmio rhaglenni teledu. Roedd yn weithdy a drefnwyd ar y cyd â Gyrfa Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd posib yn dilyn taith addysg y disgyblion.

Cynllun Iaith

Rydym wedi bod yn rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd hyder wrth siarad ac ymateb i eraill yn Gymraeg y tymor yma. Rhoddwyd cyflwyniad yn y neuadd a chynhaliwyd gweithdai i hybu hyn. Teimla'r dysgwyr bod hyn yn ychwanegu at eu sgiliau ar gyfer y dyfodol.

Cwrdd Diolchgarwch

Eleni llwyddom i ddychwelyd i'n trefniadau blynyddol o gynnal gwasanaeth diolchgarwch ond gan ddefnyddio Youtube i'w gyflwyno. Buodd y safleoedd cynradd yn perfformio yn eu addoldŷ lleol. Gallwch wylio'r gwasanaethau trwy ein sianel Youtube neu sganio'r codau QR isod. Mwynhewch!

Dinas Mawddwy

Dolgellau

Llanelltyd

YSGOL BRO IDRIS

Llanelltyd

Rhydymain

Digwyddiadau Elusennol

Bore Coffi Macmillan: Diolch i bawb am gefnogi Bore Coffi Macmillan ym mis Medi. Casglwyd £116.73.

19/11/21 Diwrnod Plant mewn Angen. Diwrnod di-wisg ysgol (£1). cacennau ar werth amser egwyl a chinio. gig cerddoriaeth yn y neuadd am 1:20 (20 ceiniog)

10/12/21 Diwrnod Siwmperi Nadolig. Gwisgo siwmper Nadolig (£1 tuag at Save the Children).

10/12/21: Cyfrannu i'r Banc Bwyd lleol.

Gŵyl Wyddoniaeth Prifysgol Abertawe

Buodd disgyblion CA2 yn cymryd rhan mewn sesiynau rhithiol yr ŵyl a chael cyfle i gymryd rhan mewn sesiwn gyda Grace Webb. y byddwch efallai'n ei hadnabod o BBC Bitesize a 'Grace's Amazing Machines'. Roedd Grace yn mynd â ni ar daith trwy'r oesoedd. gan edrych yn ôl dros gyfnodau arloesol ac anhygoel trwy gydol hanes peiriannau gyda chymorth ei beic modur ei hun! Profiad gwych gyda seren y sgrîn fach!

Dyddiadau Pwysig

16/11/21 - Gweithdy Talk the Talk Bl 8
17/11/21 - Gweithdy Talk the Talk Bl 7
18/11/21 - Gweithdy Talk the Talk Bl 6 (dim nofio)
19/11/21 - Diwrnod Plant Mewn Angen
24/11/21 - Gweithdy Seren (grŵp o ddisgyblion Bl 8)
10/12/21 - Diwrnod Siwmper Nadolig
21/12/21 - Cinio Nadolig
23/12/21 - Gwyliau'r Nadolig
06-07/01/22 - HMS (dim ysgol i ddisgyblion)

Pwyntiau Cyswllt Ffês 2

Mewn cyfnod mor anodd a digynsail. cofiwch ein bod yma i gefnogi pob rhiant a disgybl. Os ydych yn awyddus i drafod unrhyw fater mae croeso i chi gysylltu gyda ni.

Pennaeth Cynorthwyol Ffês 2
Mr Steffan Rhys Nutting

Anogwr Dysgu Safonau a Lles Ffês 2
Mrs Nia Davies